Mawrth 2010

Codi pontydd i waith: dulliau newydd o fynd i'r afael ag achosion hirdymor o beidio â gweithio

Crynodeb Gweithredol

DWP Adran Gwaith a Phensiynau

Codi pontydd i waith: dulliau newydd o fynd i'r afael ag achosion hirdymor o beidio â gweithio

Crynodeb Gweithredol

Cynnwys

Rhagair 3

Crynodeb gweithredol 4

Mynd i'r afael â chanlyniadau'r gorffennol 4

Cael y cymorth cywir i bobl 7

Rhagair

Dylai pawb gael y cyfle i weithio a ffynnu yn eu swydd.

Mae gwaith o fudd i bawb. Mae'n helpu pobl i ddarparu ar gyfer eu teuluoedd, datblygu hunan-werth a lles, meithrin cysylltiadau cymdeithasol sy'n creu cymunedau cryf a chyfrannu at yr economi.

Yn ystod dirwasgiadau'r 1980au a'r 1990au, cynyddodd nifer y bobl a oedd heb waith yn yr hirdymor yn sylweddol. Roedd gormod o bobl yn cael dim cymorth i ddychwelyd i'r gwaith a gwnaethant dderbyn y byddent yn byw bywyd ar fudd-daliadau - gyda chanlyniadau difrifol i deuluoedd, cymunedau a'n heconomi.

Rydym wedi dysgu gwersi'r dirwasgiadau hynny. Ers 1997, rydym wedi diwygio lles mewn ffordd radical, gan gyflwyno'r Bargeinion Newydd i roi help ychwanegol i hawlwyr budd-daliadau ond amodau a chyfrifoldebau cryfach hefyd.

Dyna pam y gwnaethom hefyd ddewis gweithredu i helpu pobl drwy'r gwaethaf o'r argyfwng economaidd byd-eang a buddsoddi £5 biliwn er mwyn helpu i gadw diweithdra hanner miliwn yn is na'r disgwyl yr adeg hon y llynedd.

Mae'r cam hwn hefyd wedi helpu i atal y cynnydd mawr mewn anweithgarwch a welsom yn y 1980au a'r 1990au.

Ond mae angen i ni fynd ymhellach. Mae diwygio lles a chymorth cyflogaeth mewn ffordd radical hyd yn oed yn bwysicach wrth i ni ddod allan o ddirwasgiad er mwyn mynd i'r afael â chanlyniadau'r gorffennol, ac atal diweithdra hirdymor yn y dyfodol.

Mae Codi Pontydd yn nodi sut y byddwn yn mynd ati gyda'r diwygiadau mawr sydd eisoes yn mynd rhagddynt, ond hefyd sut y byddwn yn mynd ymhellach â hawliau newydd a mwy o gyfrifoldebau i gael mwy o bobl i ddychwelyd i'r gwaith.

Y Gwir Anrhydeddus

Yvette Cooper AS

Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau

Crynodeb gweithredol

Mynd i'r afael â chanlyniadau'r gorffennol

1. Dylai pawb gael y cyfle i weithio a ffynnu yn eu swydd. Mae gwaith yn dda i bobl ar y cyfan, gan ddarparu incwm, cyswllt cymdeithasol, a gwella lles. Dylai pobl sydd allan o waith gael eu cefnogi i ddychwelyd i swydd lle y bo'n bosibl.

2. Yn y gorffennol roedd gormod o bobl a oedd allan o waith yn cael eu hanwybyddu; ni roddwyd cymorth i'r rhan fwyaf i ddychwelyd i'r gwaith, dim llawer o gyfrifoldebau i'w cyflawni yn gyfnewid am eu budd-daliadau, ac roeddynt wedi'u traddodi i fywyd ar fudd-daliadau. Cafodd gormod o ardaloedd â diweithdra uchel eu hesgeuluso a chaniatawyd iddynt ddirywio a chafodd hyn ganlyniadau trychinebus. Yn y 1980au a'r 1990au cynyddodd nifer y bobl a oedd heb waith yn sylweddol - gyda nifer y bobl a oedd yn cael budd-daliadau salwch yn mwy na dyblu a chynnydd sylweddol yn nifer y rhieni unigol a oedd allan o waith. Bu'r cynnydd gwaethaf yn ystod y dirwasgiadau.

3. Ers hynny rydym wedi cyflwyno diwygiadau mawr gan gynnwys y Bargeinion Newydd, cymorth a help ychwanegol, ond hefyd amodau cryfach ar hawlwyr budd-daliadau i chwilio am waith neu baratoi ar gyfer gwaith yn y dyfodol fel rhan o'n diwygiadau lles parhaus. Mae'r ymagwedd "rhywbeth yn gyfnewid am rywbeth" hon wedi helpu i leihau nifer y bobl sydd heb waith ac atal rhai problemau a welsom yn y dirwasgiadau blaenorol.

4. Ond mae angen i ni fynd ymhellach. Mae diwygio lles a chymorth cyflogaeth mewn ffordd radical hyd yn oed yn bwysicach wrth i ni ddod allan o ddirwasgiad i atal y creithiau hirdymor a welsom mewn degawdau blaenorol. Mae angen i ni fwrw ati gyda'r diwygiadau mawr rydym wedi'u cynllunio, ond hefyd i fynd ymhellach â hawliau a chyfrifoldebau newydd i gael mwy o bobl er m ddychwelyd i'r gwaith.

5. Dyna pam mae'r ddogfen hon yn nodi'r camau nesaf o ran diwygio lles a mynd i'r afael ag achosion hirdymor o beidio â gweithio. Mae'n nodi ein hamserlen a'n cynlluniau i ddileu'r hen fath o fudd-daliadau analluogrwydd a chyflwyno'r Asesiad Gallu i Weithio newydd i hawlwyr hirdymor i edrych ar yr hyn y gallant ei wneud, nid y pethau na allant ei wneud yn unig.

6. Rydym hefyd yn cyflwyno newidiadau pellach i'r asesiad a help newydd ac amodau cryfach i gyd-fynd ag ef - fel bod y rheini sy'n ffit i weithio yn cael help a chefnogaeth dwys ychwanegol i gael swydd. Yn y cyfamser bydd y rheini nad ydynt yn ffit i weithio ar hyn o bryd yn cael rhaglen newydd o gymorth ac amodau mwy personol ac amserlen bersonol ar gyfer ailasesu fel y gallant baratoi yn y ffordd orau ar gyfer dychwelyd i'r gwaith yn y dyfodol.

7. Ond wrth i ni ddod allan o ddirwasgiad credwn fod angen gwneud mwy i atal creithiau diweithdra hirdymor a hefyd i atal unrhyw un sy'n ffit i weithio rhag byw bywyd ar fudd-daliadau.

8. Dyna pam rydym yn cyflwyno'r cam ychwanegol o Warant newydd o swydd neu leoliad gwaith ar gyfer ceiswyr gwaith hirdymor y bydd yn ofynnol iddynt ei dderbyn. Ar yr un pryd rydym hefyd yn cynnig Gwarant o le ar y cynllun Work Choice, ar sail wirfoddol, i'r rheini sydd â chyflwr iechyd difrifol neu anabledd sydd am weithio ond a all gael trafferth mewn gwaith heb gymorth.

9. Rydym yn gwneud penderfyniadau anodd er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu'r cymorth gwell hwn o fewn cyllidebau cyfredol Adrannau drwy ail-lunio ein rhaglen Llwybrau a'r cymorth drwy'r Ganolfan Byd Gwaith ar gyfer y bobl ddi-waith hirdymor, o ystyried pwysigrwydd rhoi gwerth am arian a chefnogi'r cyllid cyhoeddus. Ond drwy helpu mwy o bobl i ddychwelyd i'r gwaith a helpu pobl i osgoi diweithdra hirdymor neu hawliadau salwch, bydd hyn hefyd yn helpu i arbed arian ar fudd-daliadau.

10. Bydd hwn yn newid radical yn y ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau i gefnogi pobl sydd mewn perygl o beidio â gweithio yn yr hirdymor - drwy ddarparu help ac amodau mwy personol yn ogystal â gwarantau i atal y rheini sy'n gallu gweithio rhag byw bywyd cyfan ar fudd-daliadau. Helpu'r bobl sy'n ddi-waith, a'r bobl sy'n cael budd-daliadau a allai ddychwelyd i'r gwaith, i mewn i swyddi yw'r ffordd orau o'u helpu nhw, eu teuluoedd a'r trethdalwr.

Ers 1997

11. Mae nifer y bobl sydd heb waith wedi lleihau, ac mae'r camau rydym wedi'u cymryd wedi atal cynnydd mawr mewn anweithgarwch yn ystod y dirwasgiad hwn. Mae anweithgarwch, ac eithrio myfyrwyr, wedi gostwng mwy na dau bwynt canran o'r boblogaeth oedran gweithio ers 1997[1].

12. Mae help i gael pobl sy'n ddi-waith i ddychwelyd i'r gwaith ac osgoi diweithdra hirdymor wedi cadw diweithdra hanner miliwn yn is na'r disgwyl y llynedd. Mae diweithdra hirdymor yn ffracsiwn o'r hyn ydoedd mewn dirwasgiadau blaenorol ac yn sylweddol is na'r hyn ydoedd yn 1997.

13. Mae mwy o ofal plant a chymorth i rieni unigol a gofynion newydd i rieni unigol sydd â phlant hŷn chwilio am waith wedi galluogi llawer i ddychwelyd i'r gwaith. Mae'r gyfradd cyflogaeth ymhlith rhieni unigol wedi cynyddu 12.1 pwynt canran rhwng 1997 a 2009 - cynnydd o 365,000 o rieni unigol mewn gwaith[2].

14. Mae help i weithwyr hŷn fel deddfwriaeth yn erbyn gwahaniaethu yn golygu bod y bwlch rhwng y gyfradd cyflogaeth gyffredinol a'r gyfradd ar gyfer gweithwyr hŷn wedi gostwng dros chwe phwynt canran[3].

15. Mae cymorth i bobl sy'n cael budd-daliadau analluogrwydd ac asesiad meddygol mwy cywir yn helpu pobl a all weithio i gael gafael ar gymorth dychwelyd-i'r-gwaith tra'n sicrhau bod y rhai na all weithio dros dro yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y farchnad lafur. Mae'r gyfradd cyflogaeth ar gyfer pobl anabl wedi cynyddu pum pwynt canran yn y ddeng mlynedd diwethaf[4].

16. Er gwaethaf y gostyngiad llym mewn twf economaidd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae llai o bobl yn hawlio budd-daliadau anweithgar heddiw nac yn 1997[5] ac mae'r nifer wedi syrthio yn ystod y dirwasgiad hyd yn oed. Rhwng diwedd 2007 a diwedd 2009 mae nifer y bobl sy'n cael budd-daliadau anweithgar wedi lleihau 75,000, tra bod y niferoedd wedi codi 475,000 yn nwy flynedd gyntaf dirwasgiad y 1990au.

1 Arolwg y Llafurlu, Chwarter 2009

2 Ibid.

3 Ibid

4 Ibid

5 Ystadegau Gwladol SYG Mawrth 2010 ac Amcangyfrifon Cynnar DWP

Mynd i'r afael ag achosion o beidio â gweithio yn yr adferiad

17. Ond mae heriau sylweddol o hyd os ydym am fynd i'r afael â chanlyniadau achosion hirdymor o beidio â gweithio o ddirwasgiadau blaenorol yn ogystal ag atal creithiau hirdymor o'r dirwasgiad presennol hefyd.

18. Credwn fod gormod o bobl o hyd yn cael budd-daliadau hirdymor a allai weithio gyda'r cymorth a'r amodau cywir ar waith. Mae'r papur hwn yn nodi'r camau nesaf yn y broses o ddiwygio lles a mynd i'r afael ag achosion hirdymor o beidio â gweithio er mwyn sicrhau nad oes un unigolyn nac un lle yn cael ei adael ar ôl yn yr adferiad ac nad oes neb yn byw bywyd cyfan ar fudd-daliadau.

19. Ar gyfer y bobl ifanc ddi-waith a'r rhai sydd newydd golli gwaith rydym eisoes wedi rhoi help sylweddol ar waith i'w cael i ddychwelyd i'r gwaith neu hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys y Gronfa Swyddi i'r Dyfodol gwerth £1 biliwn, a gwarant o swydd, hyfforddiant neu brofiad gwaith i bobl ifanc, y bydd disgwyl iddynt ei dderbyn fel un o amodau eu budd-dal. Mae tua thri chwarter o hawlwyr newydd yn treulio llai na chwe mis ar fudd-daliadau[6].

20. Ar gyfer rhieni unigol rydym yn cyflwyno gofynion cryfach i chwilio am waith i'r rheini sydd â phlant sy'n saith oed neu'n hŷn yn ddiweddarach eleni, ynghyd â chamau i wella gweithio'n rhan amser a gweithio'n hyblyg, a gwarant y byddant yn well eu byd mewn gwaith.

21. Ond rydym am wneud mwy i bobl anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd, ac hefyd i'r rheini sydd mewn perygl o fod yn ddi-waith neu beidio â gweithio yn yr hirdymor.

22. Ar ôl dirwasgiadau blaenorol, y rheini a oedd yn cael budd-daliadau salwch a'r rheini a oedd wedi bod allan o waith am fwy na blwyddyn oedd y rhai lleiaf tebygol o ddychwelyd i gyflogaeth wrth i'r economi dyfu. Hefyd, cafodd rhai mannau eu hesgeuluso a'u gadael wedi'u creithio o ganlyniad i hynny. Y tro hwn wrth i ni adfer, rydym yn benderfynol o wneud mwy i sicrhau nad yw rhai pobl a rhai mannau yn cael eu hesgeuluso fel y cawsant mewn dirwasgiadau blaenorol.

Diwygio lles

23. Felly mae'r papur hwn yn nodi diwygiadau radical i helpu'r rheini sy'n cael budd-daliadau salwch a diweithdra hirdymor.

24. Mae'n dilyn yr egwyddorion eang y gwnaethom eu nodi yn Adeiladu Dyfodol Prydain: Cyflawni Cyflogaeth Lawn, gan gynnwys y canlynol:

    - na ddylai neb gael ei anwybyddu;
    - cymorth personol i bob cwsmer;
    - "rhywbeth yn gyfnewid am rywbeth:" cynnig clir sy'n ymestyn yr hawl i gael cymorth ac sy'n dyfnhau'r cyfrifoldeb i dderbyn y cymorth hwn; a
    - partneriaeth rhwng y llywodraeth, cyflogwyr, darparwyr, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill.

6 Ibid.

Cael y cymorth cywir i bobl

Yr Asesiad Gallu i Weithio

25. Nododd y broses o gyflwyno'r Asesiad Gallu i Weithio a'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth newydd yn 2008 ddechrau newydd i'r ffordd rydym yn asesu ac yn cefnogi pobl sydd allan o waith oherwydd cyflwr iechyd neu anabledd. Drwy ganolbwyntio ar yr hyn y gall pobl ei wneud o hyd, unwaith y cydnabyddir ac yr ystyrir eu cyflwr iechyd, mae eisoes yn dod o hyd i fwy o bobl sy'n ffit i weithio ac yn eu cyfeirio at y cymorth dychwelyd i'r gwaith gweithredol sydd ar gael drwy'r gyfundrefn ceiswyr gwaith.

26. Mae'r Asesiad Gallu i Weithio hefyd yn nodi'n gywir y rheini a fydd yn gallu dychwelyd i'r gwaith o bosibl yn y dyfodol, y rheini y mae'n ofynnol iddynt baratoi a symud tuag at waith nawr a'r rheini nad ydynt yn gallu nac y disgwylir iddynt ystyried gwaith o gwbl oherwydd difrifoldeb eu cyflwr.

27. I'r rheini sydd â'r cyflyrau mwyaf difrifol mae'n iawn, fel cymdeithas deg, ein bod yn sicrhau eu bod yn cael yr holl gymorth sydd ei angen arnynt - mae'r broses o gyflwyno Grŵp Cymorth y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth wedi ein galluogi i roi cymorth ariannol ychwanegol iddynt.

28. Gan ddechrau ym mis Hydref byddwn yn ailasesu pawb sy'n cael yr hen fath o fudd-daliadau analluogrwydd ar hyn o bryd yn ôl yr Asesiad Gallu i Weithio. Bydd hyn yn cynnwys rhaglen fawr i asesu 10,000 o bobl bob wythnos yn ogystal â delio â hawliadau newydd, gydag amserlen uchelgeisiol i ddileu'r hen fath o fudd-daliadau analluogrwydd erbyn 2014.

29. Byddwn hefyd yn gwneud addasiadau pellach i'r Asesiad Gallu i Weithio er mwyn sicrhau y cyfeirir pobl at y math cywir o gymorth ar gyfer eu cyflwr iechyd. Rydym yn adolygu'r asesiad er mwyn ystyried gallu pobl i addasu i'w hanabledd yn well, yn ogystal â chyflwyno ffyrdd gwell o asesu gweithgarwch corfforol a meddyliol, bod yn fwy sensitif i gyflyrau a mathau amrywiol o salwch, a hawl i ddefnyddio'r Grŵp Cymorth i'r rheini sydd ar fin cael cemotherapi.

Help mwy personol i'r rheini na allant weithio

30. I'r rheini na ddisgwylir iddynt weithio ar hyn o bryd ond a all, gyda'r cymorth cywir, ddychwelyd i'r gwaith yn y dyfodol, credwn fod angen cymorth ac amodau mwy personol arnynt.

31. Ar hyn o bryd gall y rheini sy'n cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd gael help drwy Llwybrau at Waith, a oedd yn un o'r cynigion cyntaf, real, ar raddfa fawr i gysylltu hawliau a chyfrifoldebau i bobl sy'n cael budd-daliadau analluogrwydd, ac i helpu cwsmeriaid i symud tuag at waith. Mae wedi darparu cymorth sydd wedi'i groesawu'n fawr i lawer o hawlwyr reoli eu cyflyrau iechyd a dychwelyd i'r gwaith.

32. Fodd bynnag, cynlluniwyd y cynllun Llwybrau cyfredol cyn cyflwyno'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a'r Asesiad Gallu i Weithio. Mae'n cynnwys cyfundrefnau cyfweld tebyg i gwsmeriaid sydd â chyflyrau ac anghenion iechyd gwahanol iawn, ac nid yw'n cynnig yr ystod o gymorth sydd ar gael i grwpiau eraill, fel ceiswyr gwaith. Mae astudiaethau diweddar wedi canfod nad yw'n ddigon cost-effeithiol wrth helpu pobl i mewn i waith.

33. O ystyried y ffactorau hyn, credwn ei bod yn amser symud tuag at ddull mwy personol, lleol a hyblyg sy'n darparu cymorth mwy dwys i gwsmeriaid sy'n cael Lwfans Ceisio Gwaith, a chymorth mwy personol i'r rheini sy'n cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, gan ymateb i amgylchiadau personol unigolion yn y ddau achos.

34. Bydd pob hawliwr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth newydd yn cael amserlen bersonol i'w ailasesu fel un o amodau cael budd-dal ochr yn ochr â threfn bersonol o gymorth a gofynion i dderbyn y cymorth hwnnw. Mae hyn yn golygu y bydd disgwyl i'r rhan fwyaf o bobl symud oddi ar Lwfans Cyflogaeth a Chymorth o fewn dwy flynedd.

35. Rhoddir pobl sydd â lefelau difrifol o anabledd neu salwch neu lle y byddai'n afresymol disgwyl iddynt symud tuag at waith, yn y Grŵp Cymorth, sy'n rhoi cymorth ariannol ychwanegol heb ofyn iddynt gymryd rhan mewn gweithgaredd dychwelyd i'r gwaith

36. Efallai y bydd angen help dwys yn gyflym ar rai hawlwyr, efallai y byddai'n fanteisiol i eraill gael cyfnod o wella o driniaeth neu salwch cyn i'r gweithgaredd gychwyn. Bydd ymgynghorwyr yn gallu cynnig amrywiaeth o gymorth personol, gan gynnwys defnyddio'r Gronfa Swyddi i'r Dyfodol mewn ardaloedd lle mae llawer o bobl nad ydynt yn gweithio.

37. Byddwn yn ymgysylltu â darparwyr o fudd-dal i waith ac amrywiaeth o bartneriaid eraill yn y misoedd sydd i ddod i drafod y ffordd orau o ddarparu'r rhaglen hon i ddiwallu angen cwsmeriaid mewn ardaloedd gwahanol. Fodd bynnag, disgwyliwn ei darparu drwy gyfuniad o'r Ganolfan Byd Gwaith a chontractau â'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, gan adeiladu ar ein profiad presennol.

38. Rydym hefyd yn datblygu modelau mwy radical o gyllido er mwyn helpu pobl i mewn i waith. Yn fuan byddwn yn treialu mathau newydd o hyblygrwydd ar gyfer y Ganolfan Byd Gwaith er mwyn gwneud penderfyniadau mwy lleol am ddyrannu adnoddau i sicrhau'r canlyniadau gorau.

39. O'r flwyddyn nesaf ymlaen byddwn yn dechrau treialu dau fodel cyllido arloesol gyda darparwyr a fydd yn rhoi cwmpas gwell iddynt arloesi a chynllunio datrysiadau newydd i helpu cwsmeriaid. Bydd y rhain yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddarparwyr i helpu pobl sy'n cael budd-daliadau gwahanol, gyda thaliad yn ôl canlyniadau, sy'n rhoi mwy o gymhelliant i helpu'r rhai mwyaf anodd eu cyrraedd.

40. Rydym hefyd yn treialu'r newid i DEL/AME fel y'i gelwir fel y gall darparwyr fuddsoddi ymlaen llaw a chael eu talu o arbedion ar filiau budd-daliadau is yn y dyfodol.

41. Credwn fod gan y dulliau hyn botensial mawr. Fodd bynnag, gan eu bod yn cynnwys contractau cymhleth a chyda symiau mawr o arian cyhoeddus yn y fantol o bosibl, credwn ei bod yn hanfodol treialu'r rhain er mwyn diogelu'r cyllid cyhoeddus a'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir.

Mwy o gymorth i geiswyr gwaith sydd â chyflyrau iechyd

42. Gall rhai pobl sy'n ffit i weithio fod yn rheoli cyflwr iechyd neu anabledd o hyd. Felly, byddwn yn darparu cymorth newydd sy'n gysylltiedig ag iechyd a fydd ar gael i bobl waeth p'un a ydynt yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth - gan gynnwys rhaglen newydd i reoli cyflyrau iechyd a ddatblygir gyda'r GIG.

43. Gan fod y rheini sy'n cael budd-daliadau analluogrwydd yn cael eu hailasesu yn ôl yr hyn y gallant ei wneud, mae'n debygol y bydd rhai pobl sydd wedi bod yn cael budd-daliadau analluogrwydd hirdymor bellach yn ffit i weithio. Gan y bydd llawer ohonynt wedi bod allan o waith am gyfnod hir, byddwn yn rhoi cymorth dwys ychwanegol iddynt gan gynnwys amser ychwanegol ag ymgynghorydd, yr hawl i gael cymorth ychwanegol i chwilio am waith, meithrin hyder, sgiliau a hyfforddiant. Byddwn yn sicrhau y gallant fanteisio ar unwaith ar dreialon gwaith a rhaglenni gwirfoddoli er mwyn cael mwy o brofiad gwaith. Byddwn hefyd yn caniatáu iddynt fanteisio'n gynt ar y cymorth ychwanegol sydd ar gael yn ddiweddarach yn y broses hawlio, y Fargen Newydd Hyblyg a'r Gronfa Swyddi i'r Dyfodol.

Atal diweithdra ac achosion hirdymor o beidio â gweithio

44. Mae cymorth er mwyn helpu pobl i mewn i waith yn hollbwysig. Ond mae nifer fach o bobl yn methu â chael swydd er eu bod yn defnyddio'r cymorth a ddarperir gennym. Yn y gorffennol byddent wedi cael ychydig iawn o gymorth ychwanegol y tu hwnt i drefn graidd Ceiswyr Gwaith gan symud efallai tuag at sefyllfa hirdymor o beidio â gweithio. Byddwn yn newid hyn fel nad oes angen i neb fyw bywyd cyfan ar fudd-daliadau.

45. Lle mae pobl wedi gwneud eu rhan, wedi gweithio'n galed i geisio dod o hyd i swydd a'u bod yn dal i fod yn ddi-waith, credwn y dylai'r llywodraeth wneud ei rhan hefyd. Byddwn yn gwarantu cyflogaeth neu leoliadau gwaith i bawb sy'n ffit i weithio ond na allant ddod o hyd i waith ar ôl dwy flynedd - gyda gofyniad iddynt dderbyn y gwaith neu'r lleoliad gwaith.

46. Dylai'r rheini sydd ag anableddau difrifol a chymhleth sydd am weithio gael cymorth tebyg - ond dim ond ar sail wirfoddol. Nid yw bod yn gymwys ar gyfer Work Choice yn rhwym wrth dderbyn budd-dal penodol - mae cwsmeriaid Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a Lwfans Ceisio Gwaith eisoes yn gallu ymuno â Work Choice ar unrhyw adeg mewn hawliad am fudd-dal os yw hyn yn briodol iddynt.

47. Ond i gwsmeriaid sy'n cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth am fwy na dwy flynedd ac sydd am weithio, byddwn yn darparu lle gwarantedig ar Work Choice yr ydym yn ei ehangu.

48. I rai, efallai y bydd hyn yn arwain at gynnig o gyflogaeth â chymorth tra bydd pobl eraill yn gallu symud tuag at gyflogaeth heb gymorth.

Help yn y gwaith a rôl cyflogwyr

49. Ni all y Llywodraeth fynd i'r afael ag achosion hirdymor o beidio â gweithio ar ei phen ei hun; mae cyflogwyr yn hanfodol i'n hymdrechion.

50. Mae llawer o gyflogwyr eisoes yn gweld manteision gweithlu amrywiol. Rydym yn disgwyl i bob cyflogwr gymryd ei ddyletswyddau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb o ddifrif, gan gynnwys gwneud addasiadau rhesymol i'r gweithle neu i brosesau fel y gallant dderbyn cyflogeion anabl.

51. Bydd rhai addasiadau y tu hwnt i'r hyn sy'n rhesymol, yn enwedig i gyflogwyr llai. Byddwn yn ymestyn y gyllideb ar gyfer y rhaglen Mynediad at Waith yn gyflym, fel y gall ddarparu cymorth ariannol i fwy o weithwyr anabl. Ond byddwn hefyd yn disgwyl i gyflogwyr mwy o faint gyfrannu mwy at gost addasiadau a chyfarpar ar gyfer y gweithle, a byddwn yn ailfuddsoddi hyn fel y gallwn hepgor pob cyfraniad gan y cyflogwyr lleiaf.

Creu cyfleoedd mewn ardaloedd digyswllt

52. Rydym yn gwybod y bydd unigolion yn cael budd o ddull mwy personol, ond rydym hefyd yn cydnabod bod gan gymunedau brofiadau gwahanol o ran peidio â gweithio. Mewn dirwasgiadau blaenorol gwelodd yr ardaloedd hynny lle cafodd nifer fawr o swyddi eu dileu, yn enwedig yn y sector gweithgynhyrchu, gynnydd mawr yn nifer y bobl a oedd yn cael budd-daliadau salwch hirdymor hefyd.

53. Yn wahanol i ddirwasgiadau blaenorol lle gwnaeth yr ardaloedd â diwydiannau trwm ddwyn y baich o ran swyddi a gollwyd, mae'r dirwasgiad hwn wedi lledaenu'n fwy cyfartal dros y rhanbarthau ac yn gyffredinol nid yw'r bwlch cyflogaeth ar gyfer yr ardaloedd mwyaf difreintiedig wedi newid. Fodd bynnag, mae cymunedau gwahanol yn dal i wynebu rhagolygon economaidd gwahanol ac wedi cael profiadau gwahanol. Mae'r ardaloedd hynny sydd â'r lefelau hanesyddol uchaf o achosion o beidio â gweithio a budd-daliadau salwch yn dal i wynebu heriau mwy yn yr adferiad presennol.

54. Mewn ardaloedd lle mae'r galw am lafur yn uchel, mae angen cymorth personol sydd wedi'i deilwra'n well ar y rheini a gaiff eu heithrio o ganlyniad i lefelau gwael o sgiliau, rhwystrau personol sylweddol i waith a diffyg dyheadau. Bydd angen mwy o gymorth ar ardaloedd eraill ac yn yr ardaloedd hynny byddwn yn cynnig cymorth mwy personol gyda mwy o ffocws adfywio ar y rhesymau dros beidio â gweithio. Gan adeiladu ar y dull Total Place, byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol, yr Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol a'r Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau i hyrwyddo datrysiadau mwy radical ac arloesol a arweinir yn lleol i heriau sy'n ymwneud â mynd i'r afael ag achosion hirdymor o beidio â gweithio hefyd.

Casgliad

55. Credwn y bydd y cynlluniau hyn yn helpu llawer mwy o bobl i mewn i waith; gan alluogi mwy o bobl i fanteisio ar fuddiannau gyrfa, helpu i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol. Wrth i'r economi dyfu rydym yn benderfynol o sicrhau y tro hwn na chaiff neb ei adael i fyw bywyd ar fudd-daliadau ac na chaiff unrhyw le ei ddatgysylltu oddi wrth gyfle economaidd.

Mae'r fersiwn Gymraeg hon o'r Crynodeb Gweithredol a'r cyhoeddiad Saesneg llawn ar gael yn:
www.dwp.gov.uk/building-bridges-to-work
Mae copïau o'r Cyhoeddiad Saesneg llawn hefyd ar gael ar ffurf Braille, Hawdd ei Darllen, Print Mawr, CD sain a fersiwn gryno mewn Iaith Arwyddion Prydain ar DVD, am ddim o:

Disability Work Division
2nd Floor
Caxton House
Tothill Street
London
SW1H 9NA
Ffôn: 020 7712 2551
E-bost: building.bridges@dwp.gsi.gov.uk

Gellir darparu copïau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau amgen os bydd angen.

Darparwyd y llun ar y clawr gan y Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl (www.odi.gov.uk).

ISBN: 978-1-84947-345-3

(h) Hawlfraint y Goron 2010

Cyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau

Mawrth 2010

www.dwp.gov.uk/cymraeg/